Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hap-samplu

## gan y

## Panel Craffu

# Adolygiad o Waredliadau y Tu Allan I'r Llys ar gyfer Ymosodiadau gydag Anafiadau

## (Ionawr 2020 – Rhagfyr 2020)

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

Chwefror 2021

## Cynnwys

1.0 Trosolwg ............................................ **Error! Bookmark not defined.**
2.0 Cefndir, diben a methodoleg .................. **Error! Bookmark not defined.**
3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel .... **Error! Bookmark not defined.**
4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod panel diwethaf .. **Error! Bookmark not defined.**
5.0 Arfer da ............................................... **Error! Bookmark not defined.**
**6.0 Meysydd sydd angen gwelliant** ........................................................ 4
**7.0 Ystyriaeth o achosion ymosodiadau gydag anaf – drwgdybiedigion ifainc** ..... 5
**8.0 Ystyriaeth o achosion ymosodiadau gydag anaf – drwgdybiedigion sy'n oedolion** ........................................................................................ 8
**10.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn** ........................................................ 10
10.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol ........................................................ 13
11.0 Unrhyw fusnes arall ................................................................ 13

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o Banel Craffu ar Waredladau y tu allan i'r Llys Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021, adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion ymosodiad gydag anaf yr ymdriniwyd â hwy drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys. Ystyriodd y Panel gyfanswm o 19 achos. Roedd 9 yn ymwneud â drwdybiedigion ifainc a 10 yn ymwneud ag oedolion.

Oherwydd y pandemig COVID-19 a chanllawiau'r llywodraeth o ran ymbellhau cymdeithasol, cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir drwy'r rhaglen 'Skype for Business'.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna, mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. **Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn perthyn iddo, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**

- Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Effaith debygol ar y gymuned ;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a
- Dewisiadau eraill posibl a allai fod ar gael.

Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a
- Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.

## 3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

Gallaf i S. Jayne Picoulo. (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar 23 Chwefror 2021.

Llofnod: ____________________

Dyddiad: 26-4-21.

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod panel diwethaf

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Waredliadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Yn y cyfarfod diwethaf, nodwyd bod angen gwybodaeth bellach o ran pa un ai a oedd Datrysiad Cymunedol wedi'i gyhoeddi ar gyfer achos 18. Cadarnhawyd nad oedd Datrysiad Cymunedol wedi'i gyhoeddi. Roedd y Swyddog wedi cyfeirio'n syth i'r Cynllun Dargyfeiriol, sydd yn groes i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Heddlu. Mae'r swyddog wedi'i gynghori'n unol â hynny erbyn hyn, ac mae'r Swyddfa Cofnodi Troseddau wedi diwygio canlyniad y drosedd.

- Yn y cyfarfod diwethaf, holwyd pa un ai a oedd gan gofnod stopio a chwilio achos 21 sail ddigonol ar gyfer chwilio. Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi adolygu'r cofnod hwn ac yn medru cadarnhau bod y seiliau'n cael eu hystyried yn ddilys.

## 5.0 Arfer da

Nodwyd yr arfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Gwnaeth y Panel sylwadau penodol wrth adolygu pump o'r achosion oedolion ei fod yn gadarnhaol gweld troseddwyr a'u teuluoedd yn cael cymorth amlasiantaeth, gan gynnwys cyfeiriadau at y Gwasanaethau Cymdeithasol lle'r oedd plant yn rhan o'r mater.

## 6.0 Meysydd sydd angen gwelliant

Roedd un maes penodol ar gyfer gwella a nodwyd o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Roedd gan y Panel amheuon ynghylch gwarediadau 6 o'r 9 achos Ieuenctid oherwydd difrifoldeb y drosedd. Teimlai'r Panel hefyd bod anghysondeb rhwng cyhoeddi Gwarediadau Adferol Ieuenctid a Datrysiadau Cymunedol Ieuenctid ar gyfer ymosodiadau; roedd hyn yn amlwg ar gyfer achosion 3 ac 8 yn arbennig.

## 7.0 Ystyriaeth o achosion o feddu ar gyffuriau a reolir – drwgdybiedigion ifainc

Ymdriniwyd â 5 achos drwy Waredlad Adferol Ieuenctid a 4 drwy Ddatrysiad Cymunedol Ieuenctid.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Priodol | 3 |
| Priodol gydag Amheuon | 5 |
| Amhriodol | 1 |

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos.

**Achos 1**

Roedd gan y Panel amheuon mewn perthynas â'r gwarediad Datrysiad Cymunedol Ieuenctid hwn oherwydd difrifoldeb y drosedd. Er nad oedd gan y drwgdybyn unrhyw euogfarnau blaenorol, a dim ond 12 ydoedd, achosodd anafiadau difrifol i'r dioddefydd drwy'r ymosodiad, gan gynnwys torri ei drwyn. Roedd yr ymosodiad hefyd wedi'i gynllunio a'i ffilmio ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Yn gadarnhaol, nodwyd bod y swyddogion a oedd yn gysylltiedig â'r achos wedi siarad â'r holl blant a oedd yn rhan o'r digwyddiad, gan gynnwys y rhai a oedd wedi ei ffilmio a'i rannu ar-lein. Adolygodd y Panel y darnau ffilm er mwyn cynorthwyo â'u penderfyniad ynghylch priodoldeb y canlyniad.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 2**

Roedd gan y Panel hwn amheuon ynglŷn â'r gwarediad hwn oherwydd difrifoldeb y drosedd. Adolygodd y Panel y darnau ffilm a oedd yn ymwneud â'r drosedd hon, a gwelwyd y dioddefydd yn cael ei daro ar ei ben drosodd a throsodd gan y drwgdybyn am gyfnod hir. Er bod y drwgdybyn wedi cyfaddef i'r drosedd ac nid oedd y dioddefydd eisiau gwneud cwyn, cydnabu y gallai erlyniad heb dioddefydd fod wedi bod yn briodol oherwydd y dystiolaeth fideo. Gofynnwyd pa un ai a oedd y penderfyniad i roi Datrysiad Cymunedol wedi'i wneud heb weld y darn ffilm gan nad oedd difrifoldeb yr ymosodiad yn gwbl amlwg o'r gwaith papur a'r ffotograffau a ddarparwyd. Mynegodd y Panel werth yr ystyriaeth o'r darn ffilm cyn asesu.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

### Achos 3

Rhoddwyd Gwarediad Adferol Ieuenctid i'r unigolyn hwn ar gyfer digwyddiad lle y cafodd y dioddefydd ei gicio a'i daro yn ei wyneb. Teimlai'r Panel bod anghysondeb o ran cyhoeddi Gwarediadau Adferol Ieuenctid a Datrysiadau Cymunedol Ieuenctid. Roedd y ddau achos blaenorol wedi derbyn Datrysiadau Cymunedol Ieuenctid am ymladd ac ymosod. Gan hynny, teimlai'r Panel y dylai'r unigolyn hwn fod wedi derbyn yr un peth. Roedd gan y drwgdybyn hanes blaenorol gyda'r dioddefydd am fwlio a bygwth lladd. Teimlwyd y dylai'r canlyniad fod wedi'i ddwysau a'i gyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid er mwyn i'r unigolyn dderbyn cymorth ac ymyrraeth.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

### Achos 4

Rhoddwyd Gwarediad Adferol Ieuenctid i'r unigolyn hwn ar gyfer digwyddiad lle'r oedd y dioddefydd wedi'i daro a'i gicio. Teimlai'r Panel bod y gwarediad hwn yn briodol gan fod yr unigolyn ond yn 11 oed, yr oedd wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad i'r dioddefydd, ac roedd yr anafiadau'n rhai mân.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 5

Teimlai'r Panel bod canlyniad yr achos hwn yn briodol gydag amheuon gan fod yr unigolyn hwn wedi derbyn Gwarediad Adferol Ieuenctid am ddigwyddiad o gicio a phwno pen y dioddefydd. Gan fod y drosedd wedi'i ffilmio a'i threfnu, teimlai'r Panel y dylai'r achos o bosibl fod wedi'i dwysau. Fodd bynnag, cydnabu mai 11 oed yn unig oedd yr unigolyn a bod cyngor wedi'i geisio gan y Tîm Troseddau Ieuenctid ynghylch canlyniad priodol.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

### Achos 6

Roedd yr achos hwn yn ymwneud ag unigolyn 15 oed a oedd wedi derbyn Datrysiad Cymunedol Ieuenctid am ymladd gyda dau unigolyn arall. Roedd y drwgdybyn wedi anfon bygythiadau i ladd a neges at y dioddefydd yn dweud y byddai'n dioddef ymosodiad ar ôl ysgol. Oherwydd y bygythiadau i ladd a'r ffaith bod y drosedd hon wedi'i chynllunio, nododd y Panel y gallai fod wedi bod yn fwy priodol dwysau.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

### Achos 7

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â phlentyn 15 oed yn bwrw unigolyn arall ar ochr ei ben. Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r canlyniad, sef Datrysiad Cymunedol Ieuenctid, gan fod yr unigolyn yn edifar ac nid oedd ganddo euogfarnau blaenorol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 8

Mae'r troseddwr yn yr achos hwn wedi bwrw'r dioddefydd yn ei wyneb gan dorri dant ac achosi wyneb y dioddefydd i gochi. Teimlai'r Panel bod y canlyniad hwn, sef Gwarediad Adferol Ieuenctid, yn anghyson ag achosion blaenorol eto. Teimlai'r Aelodau y dylai'r achos hwn fod wedi'i ddwysau oherwydd difrifoldeb yr ymosodiad, ac y dylai'r unigolyn fod wedi'i gyfeirio at y Tîm Troseddau Ieuenctid ar gyfer ymyrraeth a chefnogaeth. Fodd bynnag, nodwyd bod y troseddwr yn edifar a'i fod ond yn 13 oed.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

### Achos 9

Roedd hyn mewn perthynas â'r troseddwr, a oedd yn 8 oed, yn bwrw plentyn arall â gwialen. Teimlai'r Panel bod Gwarediad Adferol Ieuenctid yn ganlyniad priodol oherwydd oed y troseddwr, y ffaith ei fod wedi cyfaddef i'r drosedd, a difrifoldeb y drosedd. Nododd y Panel yn gadarnhaol y siaradwyd â'r holl blant a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad, a bod cofnod System Wybodaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Bregusrwydd Amlasiantaeth wedi'i gyflwyno er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn cymorth. Nododd y Panel hefyd ei fod yn gadarnhaol gweld bod Swyddog Cymorth Troseddau Casineb wedi'i leoli er mwyn ymdrin â'r Drosedd Gasineb sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Cam Gweithredu 1:**

**Y Swyddfa Cofnodi Troseddau i wirio bod y Drosedd Gasineb ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r achos wedi'i chofnodi fel digwyddiad Trosedd Gasineb.**

## 8.0 Ystyriaeth o achosion ymosodiadau gydag anaf – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Ymdriniwyd â 10 achos oedolyn; ymdriniwyd â 2 achos drwy Rybudd Amodol, 7 drwy Rybudd, a 2 drwy Ddatrysiad Cymunedol.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 10 |

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos:

**Achos 10**

Teimlai'r Panel bod Rhybudd Amodol yn ganlyniad priodol ar gyfer yr achos hwn, a oedd yn ymwneud ag ymosodiad domestig a achosodd anafiadau sylweddol. Cafodd ei nodi'n gadarnhaol gan y Panel y byddai'r unigolyn wedi'i gyfeirio at y Rhaglen Fraenaru fel rhan o'i amodau, a bod Ffurflen Gyfeirio Amlasiantaeth wedi'i chyflwyno, gan gynnwys cyfeiriad at y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y plant a oedd yn dyst i'r digwyddiad.

Nodwyd bod y gwarediad wedi'i gofnodi'n anghywir fel Datrysiad Cymunedol Ieuenctid, fodd bynnag, ers hynny, mae hyn wedi'i ddiwygio ar y system i ddangos y canlyniad a gyhoeddwyd.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 11**

Roedd yr Aelodau Panel yn fodlon â'r gwarediad o Rybudd ar gyfer yr unigolyn hwn, a oedd wedi taro'r dioddefydd yn ei wyneb. Canfu'r Panel bod hyn yn unol â'r polisi, ac roedd y dioddefydd yn fodlon â'r canlyniad.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 12**

Teimlai'r Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol drwy Rybudd. Roedd y troseddwr wedi crafu wyneb y dioddefydd ac wedi taflu gwrthrych at ei ben. Nid oedd gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau blaenorol, a chanfu bod y gwarediad yn unol â'r polisi.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 13**

Roedd yr achos hwn yn ymwneud ag ymosodiad domestig lle y rhoddwyd Rhybudd i'r troseddwr. Teimlai'r Panel bod y gwarediad hwn yn briodol gan fod Swyddog Cam-drin Domestig wedi'i benodi ac roedd Ffurflen Gyfeirio Amlasiantaeth wedi'i chyflwyno er mwyn sicrhau y derbynnir cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 14**

Daeth y Panel i'r casgliad fod Rhybudd yn ganlyniad priodol ar gyfer yr achos hwn. Nodwyd nad oedd y dioddefydd eisiau gwneud cwyn, fodd bynnag, rhoddwyd cymorth yn dilyn y digwyddiad ar gyfer dianc rhag yr amgylchedd cam-drin domestig.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 15**

Rhoddwyd Rhybudd i'r troseddwr yn yr achos hwn am geisio crogi'r dioddefydd a'i wthio i mewn i ddodrefn. Teimlai'r Panel bod y gwarediad hwn yn briodol oherwydd difrifoldeb y drosedd a'r ffaith nad oedd y dioddefydd eisiau gwneud cwyn. Fodd bynnag, teimlai'r Panel y byddai'r troseddwr wedi elwa o gymorth, ond nid oedd modd iddo gael ei gyfeirio i'r Cynllun Dargyfeiriol gan mai trosedd ddomestig ydoedd.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 16**

Roedd y troseddwr yn yr achos hwn wedi ymosod ar ei bartner. Achoswyd cleisiau mân i freichiau ei bartner. Teimlai'r Panel bod rhybudd ar gyfer y drosedd hon yn briodol. Nodwyd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cymorth i'r teulu gan fod plant yn bresennol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 17**

Teimlai'r Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol drwy Ddatrysiad Cymunedol oherwydd difrifoldeb yr anaf a'r ffaith nad oedd gan y troseddwr

unrhyw euogfarnau blaenorol. Roedd y troseddwr hwn wedi taro trwyn y dioddefydd mewn man cyhoeddus.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 18

Roedd y troseddwr yn yr achos hwn wedi taro ei blentyn 5 oed, gan adael marc coch ar ei wyneb. Teimlai'r Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol drwy Rybudd a'i fod yn unol â'r polisi. Nodwyd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gysylltiedig â'r mater ac yn asesu'r sefyllfa.

**Asesiad y Panel: Priodol**


### Achos 19

Roedd y troseddwr yn yr achos hwn wedi taro'r dioddefydd ar draws ei wyneb, gan adael marc coch. Teimlai'r Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol drwy Rybudd Amodol gan fod y troseddwr wedi cyfaddef i'r drosedd. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gysylltiedig er mwyn rhoi cymorth i'r teulu.


**Asesiad y Panel: Priodol**

## 10.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r siartiau canlynol yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.





Ers Tachwedd 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o waredladau, fel y gwelir yn y graff isod.





O'r 408 o achosion a adolygwyd rhwng Ebrill 2013 a Chwefror 2021, cafodd 58% eu hasesu'n briodol, 20% yn amhriodol, 20% yn briodol gydag amheuon, a methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o'r achosion.


Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff canlynol.




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Chwefror 2021. *(Mae'r rhifau a arddangosir o fewn y colofnau graff yn nodi nifer yr achosion a adolygwyd â'r canlyniad penodol hwnnw).*




Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Chwefror 2021.




## 10.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, roedd y Panel eisiau ystyried troseddau cerbydau sy'n ymwneud ag oedolion, troseddau ieuenctid sy'n ymwneud â masnachu mewn cyffuriau, a llinellau cyffuriau yn y cyfarfod nesaf.

## 11.0 Unrhyw Fusnes Arall

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r llythyr gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu mewn perthynas â chyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig COVID-19. Nododd y Panel bod y llythyr yn dweud bod 25% o 83 Hysbysiad Cosb Benodedig COVID-19 wedi'u gwneud mewn camgymeriad. Holwyd pa un ai a yw'r ffigurau hwn yn ymwneud â ffigurau Hysbysiadau Cosb Benodedig COVID-19 Heddlu Dyfed-Powys.

**Cam Gweithredu 2:**

**SCHTh i wirio gyda'r Heddlu er mwyn deall sut y mae'r ffigurau ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig COVID-19 a nodir yn llythyr Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn ymwneud â Heddlu Dyfed-Powys.**